

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
2. Mae Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022 (“y Rheoliadau”) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd ar ffurf drafft gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref 2022 ac maent i'w gweld yn: <http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2022/9780348239911>
3. Mae disgwyl i'r Rheoliadau ddod i rym ar 13 Rhagfyr 2022.
4. Gosodwyd copïau o'r Rheoliadau a'r dogfennau cysylltiedig gerbron y Senedd heddiw ochr yn ochr â'r memorandwm hwn.
5. Mae'r memorandwm hwn wedi'i osod y tu hwnt i ddyddiad cau arferol RhS 30A o dri diwrnod, am fod Datganiad Ysgrifenedig RhS 30C wedi cael ei osod gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Rheoliadau mewn camgymeriad ar 21 Hydref. Ers hynny, ystyriwyd bod y Rheoliadau yn “Offeryn Statudol perthnasol” at ddibenion RhS 30A mewn perthynas ag un diwygiad arfaethedig. Felly, mae'r Datganiad Ysgrifenedig gwreiddiol wedi'i dynnu'n ôl a gosodwyd fersiwn ddiwygiedig heddiw.
6. Mae'r Offeryn Statudol yn cynnwys un ddarpariaeth, yn rhan 5, paragraff 20, sy'n gwneud mân ddiwygiad i adran 29 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 (Deddf 1964), ac mae'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

Crynodeb o'r Offeryn a'i amcan (gofyniad RhS 30A.4(i))

7. Amcan yr Offeryn Statudol yw diwygio cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) a ddargedwir sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n effeithiol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.
8. Mae'r offeryn hwn yn mynd i'r afael â mân ddiffygion sy'n gysylltiedig ag Ymadael â'r UE, diffygion pellach na ragwelwyd ar adeg ymadael

â'r UE ac yn sicrhau gweithrediad cyfundrefn mewforion ledled Prydain Fawr (GB). Byddai'n ymddangos yn briodol i un set o ddiwygiadau ledled Prydain Fawr gael eu gwneud gan fod angen iddynt weithio i'r DU gyfan, neu Brydain Fawr (lle mae rhyddid i symud), i sicrhau bod safonau cyffredin ac i leihau tarfu ar fasnachwyr, awdurdodau lleol, ac asiantaethau archwilio fel ei gilydd.

9. Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, Lloegr, a'r Alban ac eithrio rheoliadau 24 a 25, sy'n gymwys yn Lloegr yn unig.

Darpariaeth i'w gwneud gan yr Offeryn y ceisir cydsyniad ar ei chyfer

10. Mae'r Offeryn Statudol yn cynnwys un ddarpariaeth, yn rhan 5, paragraff 20, sy'n gwneud mân ddiwygiad i adran 29 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion (Deddf 1964). Nod y diwygiad yw mynd i'r afael â bwllch polisi sydd wedi ei nodi o fewn Deddf 1964 mewn perthynas â diffyg pwerau gwneud rheoliadau. Mae'r diwygiad yn ymestyn pwerau yn Neddf 1964 i ffrwythau, llysiau, a deunydd plannu addurniadol.
11. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y ddarpariaeth a ddisgrifir ym mharagraff 10 uchod, yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Dyma'r ddarpariaeth y ceisir cydsyniad y Senedd ar ei chyfer.

Pam mae'n briodol i'r Offeryn Statudol wneud y ddarpariaeth hon

12. Fy marn i yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn yr Offeryn Statudol hwn oherwydd er mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill pan fo rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau ac yn mynd i'r afael â materion o ran gweithredu mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac yn sicrhau cysondeb a chydlynid y llyfr statud. Felly, fy marn i yw ei bod hi'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn yr Offeryn hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru o ran cydsynio i'r darpariaethau yn yr Offeryn Statudol.